# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## (SLC(3)-12-07)

## SLC76

**Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**
**O dan Reol Sefydlog 15.2 gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol.**
**Teitl: Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) (Diwygio) 2007**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) 2006 (SI 2006/1536 (W.153)) (y "prif Reoliadau"), i gymryd i ystyriaeth Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif. 1266/2007 sy'n gosod rheolau gweithredu ar gyfer Cyfarwyddeb y Cyngor 2000/75/EC ynghylch rheoli, monitro, gwyliadwriaeth a chyfyngiadau ar symud anifeiliaid penodol o rywogaethau a allai gael haint y tafod glas. **Trefn: Negyddol** 1. Gwnaed y Rheoliadau hyn yn Saesneg yn unig. Oherwydd y brys i wneud y Rheoliadau hyn er mwyn cydymffurfio â dyletswyddau Cymunedol, penderfynodd y Gweinidog nad oedd yn rhesymol ymarferol iddynt gael eu gwneud yn ddwyieithog. Gwnaed y prif reoliadau yn Saesneg yn unig hefyd. [Rheol Sefydlog 15.2(vii)]

### Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**Tachwedd 2007**